



MISSINGLIVETHEATRE **BACK NOW** **# SCENECHANGE**
IN A MINUTE
" WELSH THEATRE LEGENDS "
VOLCANOTHEATRE.CO.UK

VOLCANO THEATRE



Y LLE GWAG

Rwy'n eistedd yn ein theatr stiwdio yn Abertawe. Mae'r geiriau stiwdio a theatr yn aml yn cael eu rhoi at ei gilydd i awgrymu rhywfaint o gysur a phellter rhwng y gynulleidfa a'r perfformiad, ond yma mae'n rhaid deall y geiriau hyn yn fras. Dyma'r Byncer. Tua 20m x 15m gyda nenfwd 3.5m, mae paent yn plicio oddi ar y nenfwd a gellir gweld gweddillion teils glas a melyn ar ddwy o'r waliau. Mae plattform concrit wedi'i godi yn cymryd bron i hanner y lle ac ar un o'r waliau mae yna gasgliad gwych o unedau trydanol. Dyma oedd ystafell storio oer Iceland, calon yr ymerodraeth rewfwyd pan oedd y man hwn yn gwasanaethu fel ystafell stoc ar gyfer y siopwyr llwglyd a fyddai'n llygadu'r rhewgelloedd yn y manau cyhoeddus y tu hwnt.

Fel sydd wedi digwydd yn achos cymaint o Strydoedd Mawr yn y DU ac mewn manau eraill, symudodd yr arbenigwyr rhewfwyd ymlaen ac roedd yr adeilad hwn yn wag am nifer o flynyddoedd. Mae nawr yn eiddo i gymdeithas dai - wyneb dynol, y gellir dweud, o ailddatblygu - a gellir disgwyl mai'r dyfodol fydd unedau preswyl uwchben a chyfleoedd masnachol cyffrous islaw. Ond am nawr mae'n dal i fod yn Theatr Byncer, cartref Volcano. Gyda'r cyfyngiadau symud yn parhau i fod yn eu lle, nid oes neb wedi bod ar gyfyl y lle ers bron i dri mis. Rwy'n eistedd ar sofa frown a oedd yn rhodd gan swyddog carchar a ddywedodd ei fod yn hoffi celf. Mae yna bentwr o hen lyfrau ar un pen o'r sofa. Rwy'n gweld ychydig o siwtcesys yn bentwr mewn cornel, gwisgoedd wedi'u gwasgaru dros feinciau pren - mae'n edrych fel bod y lle hwn wedi'i adael mewn llanast ac ar frys. Rwy'n ceisio cofio beth roeddem yn ei wneud - efallai mai'r theatr ieuencid ydoedd, neu efallai ein grŵp plant, *The Mighty New*. Ni allaf gofio yn iawn. Tybed a allaf glywed y seinyddion yn mwmian.

Un o'r llyfrau ar y sofa yw *The Empty Space* gan Peter Brook a ysgrifennwyd yn 1968. Prin y gallai fod wedi dychmygu y byddai teitl ei lyfr bellach yn disgrifio'n berffaith nid gweithgareddau ond realiti pob theatr yn y DU. Efallai

bod gennym bresenoldeb digidol amlwg ar draws llawer o blatfformau, ond mae ein stiwdios a'n llwyfannau'n wag. Mae testun Brook yn dadlau, fel sy'n dra hysbys, mai cam peryglus iawn yw i theatr esgeuluso ei tharddiad cysegredig a chyn-fodern. Mae'n ddadl hyfryd a gafodd ei gadael ar ôl rywsut yn ystod y degawdau dilynol o ddefnydd lle datblygodd theatr fel nwydd diwylliannol fwyfwy soffistigedig.

Mae'r meddyliau hyn yn llithro i'm mhen wrth i mi eistedd yn edrych ar yr ysbrydion o fewn y lle hwn. Ym mhobman rwy'n gweld atgofion yn haenau ar ben ei gilydd, a phan groesaf i edrych ar yr hyn sy'n edrych fel sgarff rwy'n teimlo fy mod i'n symud yn debyg i ysbryd, yn anweledig i'm hun ac eraill. Mae'n ymddangos bod theatr a dawns - y celfyddydau mwyaf byrhoedlog - wedi rhagddychnygu ein dilead ein hunain. Roedd Brook yn gywir wrth dynnu sylw at y ffordd y diflannodd y gynulleidfa weithiau o ganlyniad i'r goleuadau, y set neu raddfa'r theatr ei hun. Ond nawr mae'n ymddangos y gallai'r ailgyfeiriad yng ngraddfa perfformiad yr oedd llyfr Brook yn ei awgrymu fod yn ganlyniad ychwanegol i Covid-19.

Mae gwneuthurwyr theatr bob amser wedi gorfod trafod telerau pris eiddo - rydym yn barod bob amser i ymuno â'r di-waith gan fod datblygwyr yn gofyn am brisiau uwch fyth am fetrau sgwâr trefol. Er mwyn goroesi, mae'r theatr angen ei phartneriaid i gymryd golwg ehangach ar gostau twf economaidd. Mae dinasoedd angen manau diwylliannol sy'n hyblyg, yn ymatebol ac amlswyddogaethol. Os yw Dinas yn unrhyw beth o gwbl, siawns ei bod yn fan cyfarfod - lle sydd weithiau'n wag ond yna'n llawn rhialtwch, sut bynnag mae hynny'n cael ei fynegi. Yn y cyfarfodydd ac wrth gyfnewid straeon y mae dinas yn cyflawni ei haddewid o rwyddineb a chroeso. Mae'n dilyn bod angen lleoedd gwag arnom, lleoedd a all drawsnewid a chynnig hunaniaethau hyblyg a chyffro i'n poblogaethau sionc a ddim mor sionc.

Wrth i mi eistedd yn y palas adfeilliedig hwn o freuddwydion yn pendroni sut y byddwn yn ailagor yn ddiogel, yn berthnasol ac yn hyfryd, rwy'n ymwybodol bod safle adeiladu mawr nid nepell i ffwrdd wedi bod yn brysur trwy gydol y cyfnod clo. Mae cwmni datblygu *Buckingham Group* wedi bod yn creu arena ddigidol, pum munud i ffwrdd o le rwy'n eistedd. Mae'n fuddsoddiad gwerth £135M ac maen nhw'n addo lle i ni 'chwarae, gweithio, byw ac archwilio'. Mae'n ymddangos bod y datblygiad yn mynd yn ei flaen yn gyflym ers y cloi a gobeithiaf fod pryderon diogelwch y contractwyr, sy'n gweithio y tu allan yn bennaf, wedi cael sylw. Tybed a oes ganddyn nhw unrhyw amheuon ynglŷn â'r hyn maen nhw'n ei wneud wrth i'w craeniau greu sgerbwd enfawr o ddur. Efallai eu bod wedi cael jôc ynghylch a ddylent roi'r to arno neu beidio. A wnaethant feddwl tybed y gallai fod yn fwy addas, yn yr amgylchedd presennol, pe bai'n parhau i fod yn agored i'r elfennau? Efallai bod y datblygwyr yn gwybod fod yna amffitheatr ffug-Rufeinig yn arfer bod llai na 50 metr i ffwrdd o'r safle. Hanes yn ailadrodd ei hun... Wrth gwrs, mae angen datblygiad yn y ddinas fach hynod hon. Y cwestiwn mewn gwirionedd yw a fydd y cyhoedd, mewn niferoedd digonol, eisiau 'archwilio' yr arena yn agos at ei gilydd. Bydd Theatr y Grand, sydd ar draws y ffordd ac sy'n eistedd 1000 o bobl yn ei hen awditoriwm gwych, yn gallu cynghori. Mae'r dyfodol yn digwydd, y mater sy'n ein hwynebu yw ai ein dyfodol ni ydyw neu ddyfodol y bydd yn rhaid i ni ei drafod a ffitio i mewn iddo. Mae anwastadrwydd gwaith datblygu i'w weld bob amser mewn dinas fel Abertawe, wedi'i rhannu fel y mae ar echel ddaearyddol mor ddramatig.

Gall theatrau ddod â phobl at ei gilydd, ond maent hefyd yn gallu bod yn lleoedd sy'n ymddangos yn ecscliwsif, yn anghroesawgar a ddim i ni efallai. Rwy'n dymuno'r gorau i'r Arena Ddigidol. Gobeithiaf y bydd ei dyluniad gweledigaethol yn ein taflu i ddyfodol newydd o gyfranogi, cydraddoldeb a gwerthfawrogiad o'r celfyddydau mynegiannol. Bydd hefyd yn dod â ni at ein gilydd trwy annog synnwyr newydd o ddinasyddiaeth hyderus. Y tu hwnt i'r optimistiaeth hon, mae'n ymddangos yn annhebygol y bydd yr arena newydd

yn cyflwyno adferiad o'r Mahabharata neu'r Mabinogi. Mae angen graddfa, ond mae Dinas angen nifer o leoedd llai os yw diwylliant yn mynd i ffynnu. Y lleoedd llai hyn yw gwrthglawdd dinasyddiaeth a democratiaeth. Yn y lleoedd hyn rydym yn dysgu iaith berfformio a chyfranogi. Gallwn syrthio mewn cariad yn y lleoedd bach hyn gyda pherfformiadau o bob math ond rydym yn annhebygol o dderbyn golygfa o ufudd-dod ac awdurdod. Dinasyddiaeth sydd â'r gallu i feddwl yn feirniadol yw'r hyn sydd ei angen ar ddinas ddemocrataidd lwyddiannus. Boed hynny yn Theatr Volcano neu yng Nghlwyd, yng Nghaerdydd neu Formentera, yn Berlin neu Brasil mae yna fannau sy'n llawn atgofion o berfformiadau'r gorffennol a dyfodol deinamig, beirniadol. Mae'r rhain yn dod i'm meddwl ac rwy'n edrych ymlaen at ymweld â nhw eto.

Ond am nawr rwyf yn Theatr Byncer, a oedd unwaith yn siop adrannol, yna siop rewfwyd Iceland a bellach yn safle perfformio gwag. Rwy'n ceisio meddwl am berfformiad a allai ddigwydd yma yn y misoedd nesaf. Bydd yn fach - rwy'n credu y bydd y gynulleidfa fwy na thebyg yn symud drwy'r adeilad anferth hwn yn 'darganfod' perfformwyr ar hyd y ffordd. Ond beth fydd yn cael ei ddweud a sut caiff ei dderbyn? Pwy fydd yn mentro i'r Ddinas i fwynhau perfformiad? A yw'n ddrwsych da y gall nwyddau fod yn dda a ddim yn dda? A yw'r bywyd da'r un peth â bywyd a dreuliwyd yn dilyn ystod gynyddol o nwyddau? Pam y dylid ystyried perfformiad yn rhywbeth nad yw'n hanfodol, ond nid felly coffi a chacen? Nid wyf yn gwybod yr ateb i'r cwestiynau hyn, ond gwn fod angen rhyw fath o ddadansoddiad, adleisio, wylo neu gân gan berfformiad yn y cyfnod rhyfeddol yr ydym yn byw ynddo. Fel pe bai'r amseroedd llonydd hyn bellach yn ein gyrru at ymwybyddiaeth newydd o anfodlonrwydd, i deimlad newydd o'r hyn sydd efallai heb gael ei eni ynom eto. Ffordd well o fod gyda'n gilydd sydd heb gyrraedd eto. Os yw nawr yn ddyfodol mwy sensitif, efallai y byddem yn ail-brisio manau cyhoeddus a'u meddiannu mewn ffordd a fydd yn helpu i adfer ein sefydliadau dinesig, democrataidd.

Yn gysglyd gyda'r meddyliau hyn a allai adleisio ysgolheigion sydd bron yn angof, sylweddolaf fy mod yn cwmpo i gysgu a bod golau glas bach yn disgleirio i'r chwith ohonof a gwelaf fod y system sain yn dal ymlaen o fewn y lle gwag hwn - mae'r seinyddion yn anfon signal trydanol yn ôl ac ymlaen i'r artistiaid i fyny'r grisiau a'r alcoholigion y tu allan ac unrhyw un arall a fydd yn gwranddo, bod gobaith a thwyll yn teithio ar yr un trê, awyren, neu gar. Rwy'n codi ac yn cerdded drosodd i'r seinfwrdd i'w diffodd nhw. Dywedaf wrthyf fy hun na fydd unrhyw anhawster i ddatblygu ymwybyddiaeth o anfodlonrwydd mewn cymdeithas sydd mor anghyfartal â'n un ni. Ond llinellau o ddrama neu lyfr neu gerdd yw'r rhain a'r hyn sydd ei angen arnom yw gweithredu - brechlyn, pryddles pum mlynedd, ailddosbarthu, a ffordd well o fyw.

Hyd yn oed ym mis Gorffennaf mae'r awyr yn dal i fod yn oer yn y stiwdio hon, efallai ei bod yn dychwelyd i'w gwreiddiau rhewedig - ond ein gwahodd i mewn serch hynny - gan ofyn i ni feddwl am yr hyn yr ydym am ei ddweud pan ddown yn ôl a phwy all sefyll yn y lle hwn a gwneud i ni gredu ein bod wedi bod yn y sefyllfa hon gyda'n gilydd ac efallai y byddwn yn hapus i gymdeithasu unwaith eto.

PAUL DAVIES
Cyfarwydd Artistig
Gorffennaf 2020

VOLCANO THEATRE | ART HAUS

MUSIC + FILM
FEST
SUN 20 NOV NOON - 11PM

01792 646005

©VOLCANO THEATRE COMPANY, 2020